

MEMORANDWM CYDSYNIAD DEDDFWRIAETHOL

Bil Amaethyddiaeth

1. Gosodir y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol hwn o dan Reol Sefydlog ("SO") 29.2. Mae Rheol Sefydlog 29 yn rhagnodi bod rhaid gosod Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol, ac y ceir cyflwyno Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol, gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru os yw Bil Seneddol y DU yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â Chymru at unrhyw ddiben sydd o fewn, neu sy'n addasu cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad Cenedlaethol.
2. Cyflwynwyd y Bil Amaethyddiaeth (Y Bil) gan George Eustice AS yn Nhŷ'r Cyffredin ar 16 Ionawr 2020. Gellir gweld y Bil yn:

<https://services.parliament.uk/bills/2019-20/agriculture.html>

3. Mae'r Bil yn debyg mewn sawl ffordd i'r Bil Amaethyddiaeth a gyflwynwyd i'r Senedd ar 12 Medi 2018, ac na fydd yn gwneud unrhyw gynnydd pellach yn dilyn yr etholiad cyffredinol ym mis Rhagfyr 2019. Roedd y Bil Amaethyddiaeth hwnnw yn destun Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol a osodwyd ar 4 Hydref 2018 a Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol atodol a osodwyd ar 26 Mawrth 2019.

Amcan(ion) polisi

4. Amcanion polisi datganedig Llywodraeth y DU yw darparu, ar gyfer Lloegr, system newydd o dalu ffermwyr yn seiliedig ar yr egwyddor o "arian cyhoeddus ar gyfer nwyddau cyhoeddus" ar gyfer y genhedlaeth nesaf o ffermwyr a rheolwyr tir.
5. Mae'r Bil hefyd yn cynnwys mesurau i alluogi parhad y cymorth amaethyddol presennol ac i sicrhau bod y sector amaethyddol yn gweithredu'n effeithiol ar ôl i'r DU adael yr UE. Yn benodol, mae'r Bil yn cynnwys darpariaeth i alluogi taliadau i barhau i gael eu gwneud i ffermwyr gyda phwerau i symleiddio a gwella Taliadau Uniongyrchol, er enghraifft, ac i ymyrryd mewn marchnadoedd amaethyddol yn achos amodau eithriadol yn y farchnad.

Crynodeb o'r Bil

6. Noddir y Bil gan Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig.
7. Mae'r Bil yn darparu'r sail gyfreithiol, yn Lloegr, i symud oddi wrth y Polisi Amaethyddol Cyffredin (PAC) a sefydlu cynlluniau cymorth ariannol newydd yn seiliedig ar egwyddor arian cyhoeddus ar gyfer nwyddau cyhoeddus.

8. Mae'r Bil yn rhoi pwerau hefyd i alluogi parhad y cymorth amaethyddol presennol ac i ymyrryd mewn marchnadoedd amaethyddol yn achos amodau eithriadol yn y farchnad, fel y nodir uchod. Ar gais Llywodraeth Cymru, bydd y pwerau hyn ar gael i Weinidogion Cymru mewn perthynas â Chymru.
9. Mae'r Bil yn cynnwys darpariaethau hefyd ar gasglu a rhannu data; safonau marchnata a dosbarthu carcasau; cynnyrch organig; sefydliadau sy'n delio'n deg a chynhyrchwyr; materion yn ymwneud â ffermio a chefn gwlad, gan gynnwys ailddosbarthu'r ardoll cig coch a diwygio tenantiaethau amaethyddol; gofyniad i'r Ysgrifennydd Gwladol gyflwyno adroddiad i Senedd y DU ar ddiogelu'r cyflenwad bwyd; a phwerau gwneud rheoliadau i'r Ysgrifennydd Gwladol er mwyn sicrhau bod y DU yn cydymffurfio â chytundeb Sefydliad Masnach y Byd ar Amaethyddiaeth.

Darpariaethau yn y Bil y mae angen cydsyniad ar eu cyfer

10. Mae angen cydsyniad ar gyfer darpariaethau canlynol y Bil oherwydd eu bod yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â materion datganoledig.

Cymal 17: Dyletswydd i adrodd i Senedd San Steffan ar sicrwydd bwyd y DU

11. Mae'r cymal hwn yn gosod dyletswydd ar yr Ysgrifennydd Gwladol i gyflwyno adroddiad i Senedd San Steffan o leiaf unwaith bob pum mlynedd ar ddata sy'n berthnasol i ddiogelu cyflenwad bwyd y DU. Mae'r cymal yn cynnwys pum ffactor sy'n cael eu hystyried fel mater polisi i gwmpasu'r prif agweddau sy'n llywio diogelwch cyflenwad bwyd y DU.
12. Mae Llywodraeth Cymru o'r farn bod angen cydsyniad ar gyfer y cymal hwn oherwydd ei fod yn gwneud darpariaeth mewn perthynas ag ystod o faterion datganoledig, i'r graddau y mae'n berthnasol i Gymru, gan gynnwys bwyd, cynhyrchu bwyd ac argaeledd bwyd, diogelwch bwyd ac amaethyddiaeth.

Cymal 27: Ymrwymadau delio teg i brynwyr busnes sy'n prynu cynhyrchion amaethyddol

13. Bwriad y cymal hwn yw mynd i'r afael ag arferion masnachu annheg, ac atal chwaraewyr mwy yn y farchnad rhag camddefnyddio'r farchnad a cham-fanteisio ar y rheini mewn sefyllfa gymharol wan yn y farchnad. Effaith hyn yw rhoi i'r Ysgrifennydd Gwladol bŵer drwy reoliadau i osod rhwymedigaethau ar brynwyr busnes sy'n prynu cynhyrchion amaethyddol mewn perthynas â chontractau y maent yn eu gwneud ar gyfer prynu cynhyrchion o'r fath gan werthwyr cymwys, gan gynnwys telerau gorfodol.
14. Mae isadran (1) yn rhoi pŵer i'r Ysgrifennydd Gwladol wneud rheoliadau, gan gynnwys gorfodi, sy'n gosod rhwymedigaethau ar weithredwyr sy'n prynu cynhyrchion amaethyddol wrth gyflawni busnes ("prynwyr busnes") gan "werthwyr cymwys" (a ddiffinnir yn isadran (3)).

15. Mae isadrannau (3) – (5) yn rhoi diffiniadau at ddibenion yr adran. Diffinnir "prynwr busnes" yn isadran (3)(a) fel y nodir uchod, fel person sy'n prynu cynnyrch amaethyddol wrth gynnal busnes sy'n cynnwys prynu cynhyrchion o'r math hwnnw. Diffinnir "gwerthwr cymwys" yn is-adran (3)(b). Mae hyn yn cynnwys person sy'n cynnal gweithgarwch amaethyddol ar gyfer cynhyrchu'r cynnyrch, neu mewn cysylltiad â'i gynhyrchu.
16. Y categorïau eraill o "werthwr cymwys" yw sefydliadau cynhyrchwyr a chymdeithasau sefydliadau cynhyrchwyr, a gydnabyddir o dan gymal 28 y Bil, a chydgyrff cynnyrch, i'r graddau nad ydynt hwy eu hunain yn sefydliadau cynhyrchwyr neu'n gymdeithasau sefydliadau cynhyrchwyr. Ceir diffiniad pellach o gydgyrff cynnyrch yn isadrannau (4) a (5).
17. Mae is-adran (6) yn nodi enghreifftiau o'r mathau o rwymedigaethau y gellir eu gosod ar brynwyr busnes o dan y cymal. Mae hyn yn cynnwys rhwymedigaethau i ddefnyddio contract ysgrifenedig (is-adran (6)(a)); i gynnwys, neu beidio â chynnwys, telerau yn y contract sy'n ymdrin â mater penodol (is-adran (6)(b)); i gynnwys telerau sy'n gwneud darpariaeth benodol (is-adran (6)(c)(i)); a chydymffurfio â chyfres o egwyddorion ac arferion sy'n hyrwyddo delio teg (is-adran (6)(c)(ii)). Enghreifftiau yw'r rhain ac nid yw'r rhestr yn hollgynhwysol.
18. Mae is-adran (7) yn darparu enghreifftiau o'r mathau o faterion y gellid eu pennu o dan is-adran (6)(b) ac (c).
19. Mae is-adran (8) yn amlinellu'r darpariaethau gorfodi y caniateir eu gwneud o dan is-adran (1)(b), megis ymchwilio i gwynion a chreu proses apelio gadarn.
20. Mae is-adran (9) yn rhoi pwerau i'r Ysgrifennydd Gwladol ddirprwyo awdurdod i berson arall.
21. Mae Llywodraeth Cymru o'r farn bod angen cydsyniad ar gyfer y cymal hwn oherwydd bod ei ddiben a'i effaith yn gyfyngedig i'r sector amaethyddol a'i fod yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â materion datganoledig i'r graddau y mae'n gymwys i Gymru, gan gynnwys amaethyddiaeth, a chynhyrchiant a chynaliadwyedd amaethyddol.

Cymal 31: Gwrteithiau

22. Bwriedir i'r cymal hwn ddiwygio ac ehangu'n sylweddol gwmpas y pwerau presennol i wneud darpariaeth drwy reoliadau i reoleiddio, er budd y cyhoedd, gyfansoddiad neu gynnwys gwrteithiau a deunydd a fwriedir ar gyfer bwydo anifeiliaid. Mae'r darpariaethau hynny'n gymwys ledled y DU ac maent yn cynnwys pwerau i reoli mewnforio, allforio, gwerthu neu ddefnyddio gwrteithiau ac i reoleiddio marchnata, labelu a pheycynnu gwrteithiau. Bydd y pwerau diwygiedig, yn benodol, yn rhoi pwerau newydd at ddibenion asesu, monitro neu orfodi cydymffurfiaeth â rheoliadau a wneir o dan adran 74(A)(1) o Ddeddf Amaethyddiaeth 1970

neu fel arall liniaru risgiau i iechyd pobl, anifeiliaid neu blanhigion neu'r amgylchedd a gyflwynir gan wrteithiau.

23. Mae cymal 31(2) yn diwygio'r diffiniad o wrtaith o dan adran 66 o Ddeddf Amaethyddiaeth 1970 er mwyn caniatáu i ystod ehangach o ddeunyddiau gael eu rheoleiddio fel gwrtiaith yn y DU.
24. Mae cymal 31(3) yn diwygio adran 74A o Ddeddf Amaethyddiaeth 1970 i alluogi rheoleiddio gwrtiaith ar sail eu swyddogaeth (yn ogystal â'u cyfansoddiad neu eu cynnwys, fel sy'n digwydd ar hyn o bryd). Bydd hyn yn golygu bod modd pennu gwahanol ofynion ar gyfer, er enghraifft, biosymbylyddion, deunyddiau gwella pridd a gwrtiaith mwynol traddodiadol i sicrhau diogelwch ac ansawdd y gwahanol fathau o gynnyrch sy'n cael eu marchnata fel gwrtiaith yn y DU.
25. Mae cymal 31(4) yn diwygio adran 74A o Ddeddf Amaethyddiaeth 1970 ac yn caniatáu i reoliadau a wneir gan Weinidogion Cymru mewn perthynas â Chymru (a'r Ysgrifennydd Gwladol, Gweinidogion yr Alban ac Adran yng Ngogledd Iwerddon mewn perthynas â rhannau eraill o'r DU) i bennu trefn asesu, monitro a gorfodi ar gyfer sicrhau bod gwrtiaithu'n cydymffurfio â gofynion cyfansoddiad, cynnwys a swyddogaeth ac ar gyfer lliniaru risgiau eraill i iechyd pobl, anifeiliaid neu blanhigion neu'r amgylchedd a gyflwynir gan wrteithiau.
26. Bydd yr is-adran (1A) newydd a fewnosodir yn adran 74A o Ddeddf Amaethyddiaeth 1970 yn caniatáu rheoliadau er mwyn rhoi'r isadeiledd ar waith ar gyfer gweithdrefnau asesu cydymffurfiaeth sydd i'w cynnal ar wrteithiau a rhoi swyddogaethau gwyliadwriaeth ar y farchnad i awdurdod cyhoeddus. Bydd hefyd yn galluogi rhoi gofynion ar weithgynhyrchwyr ac eraill sy'n ymwneud â chyflenwi gwrtiaithu i gadw a, lle bo angen, darparu gwybodaeth mewn perthynas â gwrtiaithu i awdurdod gwyliadwriaeth y farchnad at ddibenion olrheinadwyedd ac i gynorthwyo'r awdurdod yn ei rôl.
27. Mae is-adran newydd (1B) yn nodi'r materion sy'n ymwneud â'r broses asesu cydymffurfiaeth ar gyfer gwrtiaithu y gellir darparu ar eu cyfer mewn rheoliadau. Maent yn cynnwys cydnabod person neu sefydliadau i gynnal asesiadau, creu system apelio, cyfundrefn neu fframwaith codi tâl, a phrosesau cydnabod a chofrestru.
28. Mae is-adran newydd (1C) yn nodi'r pwerau gorfodi y gellir eu rhoi i awdurdod cyhoeddus sydd â swyddogaethau gwyliadwriaeth y farchnad, gan gynnwys pwerau i gynnal asesiad pellach o wrteithiau, i wahardd gwerthu gwrtiaithu penodol, i roi cosbau ariannol i'r rhai sy'n torri rheoliadau, a rhoi pwerau i fynd i mewn ac i archwilio, cymryd samplau neu atafaelu a dinistrio deunyddiau.
29. Mae is-adran newydd (1D) yn darparu bod rhaid i reoliadau gwrtiaith beidio â gosod na rhoi pŵer neu ddyletswydd sy'n ei gwneud yn ofynnol neu'n

awdurdodi datgelu neu ddefnyddio gwybodaeth a fyddai'n groes i ddeddfwriaeth diogelu data benodol.

30. Mae isadran newydd (1E) yn darparu pŵer i wneud rheoliadau sy'n diwygio neu'n diddymu Rheoliad (EC) Rhif 2003/2003 sy'n ymwneud â gwrteithiau a deddfwriaeth berthnasol arall yr UE a ddargedwir sy'n ymwneud â gwrteithiau.
31. Mae cymal 31(5) yn diwygio adran 84 o Ddeddf Amaethyddiaeth 1970. Mae'n darparu bod y rheoliadau cyntaf a wnaed gan Weinidogion Cymru, yr Ysgrifennydd Gwladol, Gweinidogion yr Alban ac adran yng Ngogledd Iwerddon o dan adran 74A(1A) i (1E) o Ddeddf Amaethyddiaeth 1970 yn ddarostyngedig i'r weithdrefn penderfyniad cadarnhaol. Mae rheoliadau dilynol a wneir gan Weinidogion Cymru, yr Ysgrifennydd Gwladol, Gweinidogion yr Alban ac adran yng Ngogledd Iwerddon o dan adran 74A(1A)(b) (sy'n rhoi swyddogaethau i awdurdod cyhoeddus mewn perthynas â goruchwyllo a rheoleiddio'r farchnad) neu (1E)(a)(i) neu (ii) (diwygio a diddymu cyfraith yr UE a ddargedwir sy'n ymwneud â gwrteithiau) yn ddarostyngedig i'r weithdrefn penderfyniad cadarnhaol hefyd.
32. Mae Llywodraeth Cymru o'r farn bod angen cydsyniad ar gyfer y cymal hwn gan ei fod yn gwneud darpariaeth mewn perthynas ag ystod o faterion datganoledig i'r graddau y mae'n gymwys i Gymru, gan gynnwys amaethyddiaeth, diogelu iechyd pobl, lles anifeiliaid a diogelu'r amgylchedd.

Cymal 32: Adnabod ac olrhain anifeiliaid

33. Mae cymal 32 yn diwygio Deddf yr Amgylchedd Naturiol a Chymunedau Gwledig 2006 ("Deddf 2006") er mwyn mewnosod adran 89A newydd mewn perthynas ag adnabod ac olrhain anifeiliaid.
34. Mae cymal 32(1) yn mewnosod adran 89A newydd yn Neddf 2006. Dywed yrr adran hon y gall yr Ysgrifennydd Gwladol wneud neu fod wedi gwneud Gorchymyn i sefydlu corff, ac mae'n darparu y gellir dyrannu swyddogaethau penodol i'r corff hwnnw. Gall y rhain gynnwys swyddogaethau y gellir eu harfer mewn perthynas â Chymru, Lloegr, Gogledd Iwerddon neu'r Alban, ac sy'n ymwneud â chasglu, rheoli a sicrhau argaeledd gwybodaeth ynghylch adnabod, symud neu iechyd anifeiliaid, neu'r modd o adnabod anifeiliaid. Deallwn mai'r bwriad wrth wraidd y ddarpariaeth yw cymeradwyo fformat tagiau adnabod, a chyhoeddi rhifau adnabod unigol i anifeiliaid.
35. Mae cymal 32(1) yn cynnwys adran 89A(2) sy'n darparu na chaniateir datgelu neu ddefnyddio gwybodaeth yn groes i ddeddfwriaeth diogelu data wrth ddyrannu swyddogaethau i'r corff.
36. Mae adran newydd 89A(3) yn egluro bod gan "anifeiliaid" yr un ystyr ag sydd iddo at ddibenion adran 8 o Ddeddf Iechyd Anifeiliaid 1981 ("Deddf

1981"). Mae hyn yn sicrhau bod modd arfer y swyddogaethau a ddyrennir i'r corff gan yr Ysgrifennydd Gwladol mewn perthynas ag anifeiliaid na fyddent yn cael eu cynnwys fel arall o reidrwydd, megis moch domestig neu geffylau, gan fod y pwerau o dan Ddeddf 2006 yn gysylltiedig ag amaethyddiaeth.

37. Mae Llywodraeth Cymru o'r farn bod angen cydsyniad ar gyfer cymal 32(1) am ei fod yn gwneud darpariaeth mewn perthynas ag ystod o faterion datganoledig i'r graddau y mae'n gymwys i Gymru, gan gynnwys amaethyddiaeth, iechyd anifeiliaid a lles anifeiliaid.

38. Mae cymal 32(2) yn diwygio Deddf 1981 fel y bydd y term "marcio anifeiliaid" yn cael ei ddisodli yn Lloegr gan "ffordd o adnabod anifeiliaid", a gall darpariaeth a wneir o dan is-adran(1) o Ddeddf 1981 rwyng y Goron. Mae'r ddarpariaeth yn ymestyn i Gymru, Lloegr a'r Alban ond mae'r diwygiad o sylwedd yn gymwys i Loegr ac nid yw'n gwneud darpariaeth mewn perthynas â materion datganoledig.

39. Mae cymal 32(3) a (4) yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â Lloegr ac nid yw'n gwneud darpariaeth ynglŷn â materion datganoledig.

Cymal 33: Ardoll Cig Coch: taliadau rhwng cyrff ardollau ym Mhrydain

40. Mae byrddau ardollau cig coch Prydain (Hybu Cig Cymru, y Bwrdd Datblygu Amaethyddiaeth a Garddwriaeth (AHDB) a Quality Meat Scotland) i gyd, ar wahân, yn gosod ardollau ar gynhyrchwyr a phroseswyr cig coch yng Nghymru, Lloegr a'r Alban, yn y drefn honno. Dim ond i alluogi pob corff i dalu ei gostau wrth gefnogi'r diwydiant cig coch yn y wlad lle codir yr ardoll y gellir gorfodi'r ardollau hynny. Mae ardollau yn seiliedig felly ar leoliad daearyddol lladd-dai yn hytrach na tharddiad y da byw ac nid ydynt yn ystyried y patrymau masnachu sy'n bodoli ar draws ffiniau Prydain. O ganlyniad, gall yr ardoll sy'n cael ei dalu gan gynhyrchwyr sy'n gweithredu mewn un rhan o Brydain gael ei ddefnyddio i ariannu gweithgareddau hyrwyddo a datblygu mewn rhan arall.

41. Mae cymal 33 yn galluogi Gweinidogion i sefydlu cynllun sy'n ei gwneud yn ofynnol i fyrddau amaethyddol ym Mhrydain ailddosbarthu ardollau ymysg ei gilydd. Y bwriad yw y bydd hyn yn galluogi'r rhai sy'n buddsoddi mewn bridio a magu da byw i elwa ar yr ardoll a gesglir mewn perthynas â'u da byw, hyd yn oed os yw'r ardoll yn cael ei chasglu gan ladd-dy mewn awdurdodaeth arall.

42. Mae Llywodraeth Cymru o'r farn bod angen cydsyniad ar gyfer y cymal hwn gan ei fod yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â materion datganoledig i'r graddau y mae'n gymwys o ran Cymru, yn enwedig amaethyddiaeth.

Cymalau 36 a 37: cynnyrch organig

43. Bwriad y cymalau hyn yw rheoleiddio'r sector organig. Yn benodol, mae'r cymalau'n rhoi pwerau i wneud rheoliadau mewn perthynas ag ardystio cynhyrchion organig a rheolaethau mewnfurio ac allforio. Gall yr Ysgrifennydd Gwladol wneud rheoliadau mewn unrhyw achos (cymal 37(1)(a)). Caiff Gweinidogion Cymru wneud rheoliadau "os ac i'r graddau y byddai darpariaeth a wneir gan y rheoliadau o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru pe bai wedi ei chynnwys mewn Deddf gan y Cynulliad hwnnw (gan anwybyddu unrhyw ofyniad am gydsyniad unrhyw berson) "(cymal 37(1)(c)).
44. Mae Cymal 36 (1) i (4) yn ymdrin ag ardystio cynhyrchion organig, gweithgareddau sy'n ymwneud â chynhyrchion organig a phersonau sy'n cyflawni gweithgareddau o'r fath. Gwneir darpariaeth ar gyfer gwneud rheoliadau i ymdrin â materion sy'n ymwneud ag ardystio, gan gynnwys gwerthu a marchnata cynhyrchion organig; amcanion ac egwyddorion cynhyrchu organig; a labelu cynhyrchion organig.
45. Mae is-gymal (2) yn ymdrin â materion sy'n ymwneud â'r broses ardystio, gan gynnwys cymhwyso, cyhoeddi ac atal tystysgrifau, a gwerthu a marchnata cynhyrchion organig. Mae is-gymal (3) yn nodi (heb gyfyngiad) yr amcanion, yr egwyddorion a'r safonau cynhyrchu organig y gall rheoliadau ynghylch ardystio eu cwmpasu. Mae is-gymal (4) yn rhoi pwerau drwy reoliadau i wneud darpariaeth ynghylch labelu, marchnata a gwerthu cynhyrchion organig ardystiedig.
46. Mae is-gymalau (5) i (7) yn rhoi pŵer i wneud darpariaeth drwy reoliadau mewn perthynas â mewnfurio ac allforio cynhyrchion organig o'r Deyrnas Unedig.
47. Mae Llywodraeth Cymru o'r farn bod angen cydsyniad ar gyfer y cymalau hyn gan eu bod yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â materion datganoledig (i'r graddau y maent yn gymwys i Gymru), yn enwedig amaethyddiaeth, cynnyrch amaethyddol a bwyd.

Cymalau 40 i 42: Cytundeb Sefydliad Masnach y Byd ar Amaethyddiaeth

48. Mae cymalau 40 i 42 yn rhoi'r pwerau i'r Ysgrifennydd Gwladol sicrhau bod y DU yn cydymffurfio â'i rhwymedigaethau o dan Gytundeb Sefydliad Masnach y Byd ar Amaethyddiaeth.
49. Mae'r "Cytundeb ar Amaethyddiaeth" yn gytuniad rhyngwladol sy'n amlinellu nifer o reolau ac ymrwymïadau cyffredinol ar arferion masnach amaethyddol fel y'u cytunwyd gan aelodau Sefydliad Masnach y Byd. Mae'r mesurau hyn yn perthyn i dair colofn; disgyblaethau ar gymorth domestig, mynediad i'r farchnad a chymorthdaliadau allforio. Mae'r UE yn aelod o Sefydliad Masnach y Byd ac mae'r DU yn aelod o'r Sefydliad yn ei rhinwedd ei hun hefyd; o ganlyniad, mae'r ddau wedi llofnodi'r Cytundeb ar Amaethyddiaeth, ac ar ôl ymadael â'r UE mae'r DU yn parhau i fod yn ddarostyngedig i unrhyw ymrwymïadau a rhwymedigaethau o dan y Cytundeb ar Amaethyddiaeth. Llywodraeth y DU fydd yn gyfrifol am

sicrhau bod holl bolisiâu'r DU ar gymorth domestig mewn perthynas ag amaethyddiaeth yn cydymffurfio â Sefydliad Masnach y Byd.

50. Mae'r darpariaethau cymorth domestig yn ymwneud â mathau amrywiol o gymorth ariannol (uniongyrchol ac anuniongyrchol) gan y llywodraeth a roddir i gynhyrchwyr cynhyrchion amaethyddol penodol (fel y'u diffinnir yn Rhan I y Cytundeb ar Amaethyddiaeth). Bydd angen i daliadau a wneir i gynhyrchwyr amaethyddol yn ystod y cyfnod pontio amaethyddol a thrwy unrhyw gynlluniau cymorth domestig yn y dyfodol gydymffurfio â'r Cytundeb ar Amaethyddiaeth.
51. Bwriad y cymal hwn yw sicrhau bod pob cynllun cymorth yn cael ei ddsbarthu'n gywir (fel blwch oren, gwyrdd neu las), ac os ydynt yn disgyn i'r blwch oren, nad ydynt yn achosi i'r DU dorri ei hymrwymiad Mesur Cyfanredol o Gymorth. Mae'r cymal hwn hefyd yn bwriadu sicrhau bod y DU yn gallu cyflawni ei rhwymedigaethau i wneud hysbysiadau sy'n ofynnol o dan y Cytundeb ar Amaethyddiaeth ac ymateb i unrhyw heriau gan aelodau eraill o Sefydliad Masnach y Byd.
52. Mae cymal 40(2) yn cysylltu'r tri chymal (40, 41 a 42) sy'n rhoi pŵer i'r Ysgrifennydd Gwladol wneud rheoliadau i sicrhau cydymffurfiaeth â rhwymedigaethau'r Deyrnas Unedig o dan y Cytundeb ar Amaethyddiaeth (y "diben" a nodir yn adran 40(1)).
53. Mae cytundebau Sefydliad Masnach y Byd yn caniatáu rhai mathau o gymorth sy'n ystumio masnach (a ddsberthir gan Sefydliad Masnach y Byd fel cymorth blwch oren). Mae rheolaethau ar ddefnydd blwch oren yn darparu i rai o aelodau Sefydliad Iechyd y Byd, gan gynnwys y DU, ddarparu lefelau wedi'u capio o gymorth sy'n ystumio masnach (a ganiateir). Mae cymal 41 yn rhoi pwerau i'r Ysgrifennydd Gwladol bennu terfynau ar lefelau cymorth domestig (at ddibenion sicrhau cydymffurfiaeth â rhwymedigaethau'r Deyrnas Unedig o dan y Cytundeb ar Amaethyddiaeth).
54. Mae'n rhaid i aelodau Sefydliad Masnach y Byd, gan gynnwys y Deyrnas Unedig, gategoreiddio cymorth domestig yn unol â'r diffiniadau a nodir yn y Cytundeb ar Amaethyddiaeth. Mae cymal 42 yn rhoi pwerau i'r Ysgrifennydd Gwladol wneud darpariaeth ynghylch gategoreiddio cymorth, at ddibenion y Cytundeb a chymal 41. Mae is-gymalau (2) a (3) yn rhoi'r pŵer i'r Ysgrifennydd Gwladol bennu proses mewn rheoliadau sydd wedi'i llunio i gategoreiddio a hwyluso adolygiad a chategoreiddio cymorth domestig yn unol â'r rhwymedigaeth hon. Mae Cymal 42(3)(b) yn rhoi pwerau i'r Ysgrifennydd Gwladol bennu proses mewn rheoliadau ar gyfer datrys anghydfodau rhwng awdurdodau ynghylch gategoreiddio.
55. Mae'n ofynnol i aelodau Sefydliad Iechyd y Byd wneud hysbysiadau i gefnogi eu rhwymedigaethau o dan y Cytundeb ar Amaethyddiaeth, gan gynnwys hysbysiad blynyddol ar lefelau'r cymorth domestig i gynhyrchwyr amaethyddol, a chyfiawnhad lle mae cymorth wedi ei gategoreiddio fel cymorth blwch gwyrdd neu flwch glas. Mae is-gymalau (4) a (5) yn rhoi'r

pwerau i'r Ysgrifennydd Gwladol y pwerau i bennu darpariaethau mewn rheoliadau ar gyfer casglu gwybodaeth at ddibenion cydymffurfio â rhwymedigaethau'r Cytundeb ar Amaethyddiaeth, gan gynnwys gan Weinidogion Cymru.

56. Mae Llywodraeth Cymru o'r farn bod angen cydsyniad ar gyfer y darpariaethau hyn am eu bod yn gwneud darpariaeth mewn perthynas ag amaethyddiaeth ac yn ymwneud â gweithredu rhwymedigaethau rhyngwladol yn ddomestig.

Cymal 44: Hyd y ddarpariaeth mewn perthynas â Chymru

57. Mae cymal 44 yn sicrhau bod y darpariaethau canlynol yn dod i ben ddiwedd 2024; adran 43 ac Atodlen 5, adran 49(b) ac, yn Atodlen 7, Rhan 2, adran 52(1)(g), ac yn adran 53(3), paragraff (b) ac, i'r graddau y mae'n ymwneud â Rhan 2 o Atodlen 7, paragraff (c). Gwneir darpariaeth hefyd i arbed y rheoliadau a ddisgrifir yn is-gymalau (3) i (6). Mae'r cymal yn caniatáu hefyd i Weinidogion Cymru, drwy reoliadau, wneud darpariaethau trosiannol, darfodol neu arbed mewn perthynas â'r adran hon.

58. Ystyrir bod y darpariaethau a fydd yn dod i ben o dan y ddarpariaeth hon yn faterion datganoledig (am y rhesymau a nodir yn y memorandwm hwn). Mae Llywodraeth Cymru o'r farn bod angen cydsyniad ar gyfer y cymal hwn gan ei fod hefyd yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â'r materion datganoledig hynny.

Cymal 46: Diogelu data

59. Mae'r cymal hwn yn ei gwneud yn glir nad yw unrhyw ddyletswydd neu bŵer i ddatgelu gwybodaeth o dan Rannau 1 i 6 o'r Bil yn gweithredu i'w gwneud yn ofynnol datgelu gwybodaeth a fyddai'n mynd yn groes i'r ddeddfwriaeth diogelu data. Y "ddeddfwriaeth diogelu data" yw (o'r diwrnod ymadael) y Rheoliad GDP 2016/679 fel y'i dargedwir mewn cyfraith ddomestig (y "GDPR"), Deddf Diogelu Data 2018, rheoliadau a wnaed o dan y Ddeddf honno, a rheoliadau a wnaed o dan adran 2(2) o Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972 fel y mae'n ymwneud â GDPR yr UE neu Gyfarwyddeb Gorfodi'r Gyfraith 2016/680 (adran 3 o Ddeddf Diogelu Data 2018).
60. Mae'r GDPR a Deddf Diogelu Data 2018 yn ymwneud â diogelu unigolion mewn perthynas â phrosesu data personol (gweler, er enghraifft, adran 2 o Ddeddf 2018). Mae "diogelu data personol" yn fater a gadwyd yn ôl (paragraff 170 o Atodlen 7A i Ddeddf Llywodraeth Cymru). Fodd bynnag, mae'r ddarpariaeth hon yn atodol i'r darpariaethau perthnasol yn Rhannau 1 i 6 gan ei bod yn ailddatgan y "ddeddfwriaeth diogelu data" bresennol fel y mae'n gymwys i'r darpariaethau hynny. I'r graddau y mae'r darpariaethau perthnasol yn Rhannau 1 i 6 wedi'u datganoli (fel yr ystyrir uchod) yna mae Llywodraeth Cymru o'r farn bod angen cydsyniad ar gyfer y cymal hwn am ei fod yn gwneud darpariaeth atodol mewn perthynas â materion datganoledig.

Cymalau 47 i 54 (ac Atodlen 7)

61. Mae'r cymalau hyn yn gwneud darpariaeth gyffredinol a therfynol am reoliadau, gan gynnwys gweithdrefnau a materion cysylltiedig; dehongli; diwygiadau canlyniadol i reoliad y Prif Swyddog Meddygol (a nodir yn Atodlen 7); pwerau i wneud darpariaeth ganlyniadol ac ati drwy reoliadau; darpariaeth ariannol; rychwant; cychwyn; a theitl byr y Bil.
62. Mae Llywodraeth Cymru o'r farn bod angen cydsyniad ar bob un ohonynt i'r graddau y mae pob un ohonynt yn gwneud darpariaeth o ran darpariaethau yn y Bil yr ystyrir eu bod wedi'u datganoli, fel y disgrifir yn y memorandwm hwn (ac eithrio'r teitl byr sy'n fater datganoledig i'r graddau y mae'n gwneud darpariaeth mewn perthynas â Chymru).

Atodlen 3 a chymal 34: Tenantiaethau amaethyddol

63. Mae Cymal 34 yn cyflwyno Atodlen 3 i'r Bil. Mae'r darpariaethau yn rhan 1 o Atodlen 3 i'r Bil yn gwneud diwygiadau i Rannau 2 a 4, ac Atodlenni 2, 3 a 6, Ddeddf Daliadau Amaethyddol 1986 ("Deddf 1986") sy'n cynnwys darpariaethau ynghylch tenantiaethau amaethyddol. Mae'r darpariaethau yn Rhan 2 o Atodlen 3 i'r Bil yn gwneud diwygiadau cyfatebol i Ddeddf Tenantiaethau Amaethyddol 1995.
64. Mae Deddf 1986 yn gymwys i denantiaethau amaethyddol yr ymrwymwyd iddynt cyn 1 Medi 1995 a'r tenantiaethau hynny a ddechreuodd ar ôl 1 Medi 1995, ac sy'n ddarostyngedig i ddarpariaethau adran 4(1) o Ddeddf Tenantiaethau Amaethyddol 1995 ac sy'n parhau i gael eu llywodraethu gan Ddeddf 1986. Mae tenantiaethau amaethyddol yn destun rhent a reoleiddir, mae ganddynt sicrwydd deiliadaeth oes ac mae'r rhan fwyaf a roddwyd cyn 12 Gorffennaf 1984 yn rhoi hawliau olynu statudol hefyd ar gyfer hyd at ddwy genhedlaeth o berthnasau agos cymwys pan fydd y tenant presennol yn marw neu'n ymddeol (ac eithrio cytundebau Deddf Daliadau Amaethyddol ffermydd cyngor nad oes ganddynt hawliau olynu statudol).
65. Bwriad y darpariaethau yn Atodlen 3 yw diweddarau ac addasu darpariaeth ar gyfer tenantiaethau amaethyddol yn Neddf 1986 er mwyn darparu mwy o hyblygrwydd, dileu rhwystrau i fuddsoddi a gwella gweithrediad ymarferol y Ddeddf 1986 mewn perthynas â thenantiaethau amaethyddol.

66. Mae'r gyfres o ddiwygiadau i Ddeddf 1986 yn cynnwys:

- i) Diwygiadau i adran 12 ac Atodlen 2 i Ddeddf 1986 sy'n gwneud darpariaeth ynghylch cymrodeddu neu drydydd parti'n pennu'r rhent. Mae'r diwygiadau'n sicrhau y gall penodi arbenigwyr trydydd parti ddigwydd ar yr un pryd â phenodi'r cymrodeddwyr a gwneud darpariaeth ynghylch ystyried ffactorau sy'n ymwneud â gwelliannau i ddaliad yn y broses gymrodeddu neu gael trydydd parti i bennu'r rhent;

- ii) Mewnosod adran 19A newydd yn Neddf 1986 sy'n rhoi pŵer gwneud rheoliadau i Weinidogion Cymru, mewn perthynas â Chymru, a'r Ysgrifennydd Gwladol, mewn perthynas â Lloegr, i wneud darpariaeth mewn rheoliadau i denant daliad amaethyddol gyfeirio rhai ceisiadau am ganiatâd y landlord neu am amrywio telerau'r contract i'w cymrodeddu os na ddaethpwyd i gytundeb. O ran Cymru, cyfyngir ceisiadau y gellir eu hatgyfeirio i'r rheini at ddibenion galluogi tenantiaid i gael cymorth ariannol mewn amgylchiadau marchnad eithriadol a chydymffurfio â dyletswyddau statudol;
- iii) Diwygiadau i Atodlen 3, Achos A, yn diweddarau darpariaethau rhybudd ymdeol fferm gyngor i gyd-fynd â newidiadau i bolisi pensiwn y wladwriaeth;
- iv) Diwygiadau i ddarpariaethau amrywiol yn Neddf 1986 sy'n gwneud darpariaeth ynghylch olyniaeth tenantiaethau yn dilyn marwolaeth neu ymdeoliad tenant. Mae'r darpariaethau diwygio yn diddymu'r holl ddarpariaethau yn Neddf 1986 sy'n ymwneud â'r prawf uned fasnachol, yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau sy'n gosod meini prawf y mae'n rhaid eu hystyried wrth benderfynu a yw person yn addas i fod yn denant ar ddaliad, a diddymu darpariaethau sy'n rhagnodi isafswm oedran tenant sy'n ymdeol;
- v) Mae diwygiadau i adrannau 12(b), 22(b) ac 84(2) o Ddeddf 1986 yn cael eu diweddarau fel y gall Cymdeithas Ganolog y Priswyr Amaethyddol a'r Gymdeithas Cyfraith Amaethyddol gynnig gwasanaethau apwyntiadau cymrodeddu ochr yn ochr â Sefydliad Brenhinol y Syrfewyr Siartredig. Gwneir newidiadau cyfatebol i Ddeddf Tenantiaethau Amaethyddol 1995 i ymestyn y rhestr o awdurdodau proffesiynol y gall tenantiaid a landlordiaid wneud cais iddynt i benodi cymrodeddwr i ddatrys anghydfodau sy'n codi o dan Ddeddf 1995 fel ei bod yr un fath â'r rhai a restrir yn adran 84 o Ddeddf 1986.

67. Mae Llywodraeth Cymru o'r farn bod cydsyniad yn ofynnol ar gyfer yr holl ddarpariaethau yn Atodlen 3 oherwydd eu bod yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â materion datganoledig (i'r graddau y maent yn ymwneud â Chymru), yn enwedig hyrwyddo amaethyddiaeth. Diben y diwygiadau yw rhoi mwy o hyblygrwydd i'r sector ffermio tenantiaid.

Atodlen 5 a chymal 43

68. Mae cymal 43 o'r Bil yn cyflwyno Atodlen 5 y Bil sy'n gwneud darpariaeth mewn perthynas â Chymru. Mae'r pwerau a nodir yn yr Atodlen honno yn gyfyngedig o ran amser a chânt eu disodli gan Fil Amaethyddiaeth (Cymru) a fydd yn cael ei gyflwyno yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru. Mae Atodlen 5 yn cwmpasu'r pwerau hynny sydd eu hangen i alluogi parhad cymorth ariannol i ffermwyr a sicrhau bod y sector amaethyddol yn

gweithredu'n effeithiol ar ôl i'r DU ymadael â'r UE. Rhoddir pwerau tebyg i'r rhai a ddisgrifir isod i'r Ysgrifennydd Gwladol mewn perthynas â Lloegr o dan Rannau 1 i 3 a 5 o'r Bil. Fodd bynnag, nid yw Atodlen 5 yn cynnwys unrhyw ddarpariaeth i weithredu neu drosglwyddo i gynlluniau cymorth ariannol newydd (yn y ffordd y mae Rhan 1 o'r Bil yn gwneud darpariaeth o'r fath mewn perthynas â Lloegr).

Atodlen 5, Rhan 1: Cymorth ariannol ar ôl ymadael â'r UE

69. Mae paragraffau 1-3 o Ran 1 o Atodlen 5 yn darparu ar gyfer talu Taliadau Uniongyrchol yng Nghymru o dan y cynllun taliad sylfaenol.
70. Mae paragraff 2 yn darparu pwerau i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau i addasu cyfraith yr UE a ddargedwir sy'n ymwneud â'r cynllun taliad sylfaenol ar ôl ymadael â'r UE, ac mae'n cynnwys pwerau i symleiddio neu wella'r cynllun taliad sylfaenol neu i derfynu taliadau gwyrddu.
71. Mae paragraff 3 yn cynnwys darpariaeth i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau i barhau â'r cynllun taliad sylfaenol ar ôl 2020. Bydd hyn yn caniatáu i'r cynllun taliad sylfaenol barhau y tu hwnt i 2020.
72. Mae paragraff 4 yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud rheoliadau sy'n addasu, mewn perthynas â Chymru, ddeddfwriaeth uniongyrchol yr UE a ddargedwir sy'n ymwneud ag ariannu, rheoli a monitro'r polisi amaethyddol cyffredin ac is-ddeddfwriaeth sy'n ymwneud â'r ddeddfwriaeth honno. Mae hynny'n cynnwys Rheoliad 1306/2013 a deddfwriaeth uniongyrchol a ddargedwir a wnaed o dan y Rheoliad hwnnw.
73. Mae paragraff 5 yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau sy'n addasu deddfwriaeth uniongyrchol yr UE a ddargedwir sy'n ymwneud â chefnogaeth i ddatblygu gwledig ac is-ddeddfwriaeth sy'n ymwneud â'r ddeddfwriaeth honno. Gellir defnyddio'r pŵer naill ai i ddiddymu'r ddeddfwriaeth honno neu i symleiddio neu wella gweithrediad deddfwriaeth o'r fath.

Atodlen 5, Rhan 2: Ymyrraeth mewn Marchnadoedd Amaethyddol

74. Bydd Rhan 2 o Atodlen 5 yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud datganiad os yw Gweinidogion Cymru o'r farn bod amodau eithriadol yn y farchnad (paragraff 6). Yna caiff Gweinidogion Cymru arfer y pwerau a roddir o dan baragraff 7, yn ystod y cyfnod a bennir yn y datganiad (oni bai y caiff ei ddirymu ynghynt). O dan y pwerau hynny gall Gweinidogion Cymru roi, neu gytuno i roi, cymorth ariannol i gefnogi cynhyrchwyr amaethyddol yng Nghymru y mae eu hincwm yn cael neu'n debygol o gael ei effeithio gan yr amodau eithriadol yn y farchnad a ddisgrifir yn y datganiad (paragraff 7(2)). Hefyd caiff Gweinidogion Cymru wneud unrhyw ddefnydd a ystyriant yn briodol o unrhyw bwerau sydd ar gael o dan ddeddfwriaeth uniongyrchol yr UE a ddargedwir sy'n darparu ar gyfer

gweithredu ymyriadau cyhoeddus a chymorth ar gyfer mecanweithiau storio preifat mewn ymateb i'r datganiad (paragraff 7(3)).

75. Gall Gweinidogion Cymru addasu deddfwriaeth uniongyrchol yr UE a ddargedwir hefyd mewn perthynas ag ymyriadau yn y farchnad gyhoeddus neu gymorth ar gyfer storio preifat fel y gellir teilwra gweithredu cynlluniau o'r fath i amgylchiadau domestig cyfredol pan gânt eu defnyddio mewn cyfnod o amodau eithriadol yn y farchnad a sefydlwyd o dan baragraff 6 (paragraff 8(1)).
76. Gall Gweinidogion Cymru addasu deddfwriaeth uniongyrchol yr UE a ddargedwir hefyd sy'n ymwneud ag ymyriadau yn y farchnad gyhoeddus neu gymorth ar gyfer storio preifat ac eithrio yng nghyswllt datganiad o dan baragraff 6, gan gynnwys newid gweithrediad y ddeddfwriaeth honno a sicrhau ei bod yn peidio â chael effaith yng Nghymru (paragraff 8(2)).

Atodlen 5, Rhan 3: Casglu a rhannu data

77. Mae rhan 3 yn gwneud darpariaeth ynghylch casglu a rhannu data. Yn benodol, mae'r darpariaethau hyn yn rhoi pwerau i Weinidogion Cymru i'w gwneud yn ofynnol i berson sydd mewn cadwyn gyflenwi amaethyddol, neu sydd â chysylltiad agos â hi, ddarparu gwybodaeth am unrhyw rai o weithgareddau'r person sy'n gysylltiedig â'r gadwyn gyflenwi cyn belled ag y bo'r gweithgareddau yng Nghymru. Maent yn cynnwys pwerau i Weinidogion Cymru ei gwneud yn ofynnol darparu gwybodaeth benodol (paragraff 9 (1)), gwneud rheoliadau i gasglu gwybodaeth (paragraff 9 (2)) a gorfodi gofyniad i ddarparu gwybodaeth (paragraff 14(1)).
78. Gellir defnyddio'r data a gesglir ac a rennir o dan y darpariaethau hyn at ddibenion penodol a nodir ym mharagraff 11 gan gynnwys, er enghraifft, helpu ffermwyr a chynhyrchwyr i gynyddu cynhyrchiant, helpu cynhyrchwyr i reoli risg a natur anwadal y farchnad, a chefnogi iechyd ac olrheinadwyedd anifeiliaid a phlanhigion. Rhaid prosesu'r wybodaeth yn unol â'r gofynion sydd ym mharagraff 13.
79. Rhoddir dyletswydd ar Weinidogion Cymru i gyhoeddi gofyniad drafft cyn bod gofyniad penodol i gasglu data yn cael ei osod o dan baragraff 9(1) (paragraff 12 (1)).

Atodlen 5, Rhan 4: Safonau marchnata a dosbarthu carcassau

80. Mae rhan 4 yn rhoi pwerau i Weinidogion Cymru, drwy reoliadau, wneud darpariaeth ynghylch y safonau sy'n gymwys i gynhyrchion penodol sy'n cael eu marchnata yng Nghymru. Mae'r Rhan hon yn galluogi Gweinidogion Cymru, drwy reoliadau, i wneud darpariaeth hefyd mewn perthynas â dosbarthu carcassau gan ladd-dai yng Nghymru.
81. Mae paragraff 16 yn cynnwys y rhestr o gynhyrchion amaethyddol y gellir gwneud safonau marchnata ar eu cyfer. Caiff Gweinidogion Cymru wneud rheoliadau i ddiwygio'r rhestr o gynhyrchion y caniateir gosod safonau

marchnata ar eu cyfer neu newid y disgrifiad o'r cynhyrchion amaethyddol rhestredig (paragraff 16(3)).

Atodlen 5, Rhan 5: Diogelu Data

82. Mae rhan 5, sy'n debyg iawn i gymal 46 y Bil, yn ei gwneud yn glir nad yw unrhyw ddyletswydd neu bŵer i ddatgelu gwybodaeth o dan Atodlen 5 yn gweithredu i'w gwneud yn ofynnol datgelu gwybodaeth a fyddai'n mynd yn groes i ddeddfwriaeth diogelu data (fel y'i diffinnir yn Neddf Diogelu Data 2018, adran 3).

Casgliadau ynghylch caniatâd Atodlen 5 (a chymal 43)

83. Mae Llywodraeth Cymru o'r farn bod angen cydsyniad ar gyfer pob un o'r darpariaethau yn Atodlen 5 (a chymal 43), gan eu bod yn gwneud darpariaeth mewn perthynas ag amaethyddiaeth, mater datganoledig.

Pwerau i greu is-ddeddfwriaeth

84. Mae'r Atodiad yn disgrifio rhestr o bwerau i wneud is-ddeddfwriaeth a roddir i Weinidogion Cymru. Diffinnir 'gweithdrefn penderfyniad cadarnhaol' a 'gweithdrefn penderfyniad negyddol' yng Nghymal 47(6)(c) a (7)(c) y Bil yn y drefn honno gan fod y termau hynny yn gymwys i is-ddeddfwriaeth a wneir gan Weinidogion Cymru o dan y Bil.

Y rhesymau dros wneud y darpariaethau hyn ar gyfer Cymru yn y Bil Amaethyddiaeth

85. Mae'n parhau'n fwriad gan y llywodraeth hon i gyhoeddi Papur Gwyn ar Amaethyddiaeth cyn diwedd tymor y Cynulliad hwn a fydd yn adeiladu ar y cynigion a amlinellir yn yr ymgynghoriad Ffermio Cynaliadwy a'n Tir ac yn gosod y sylfeini ar gyfer Bil Amaethyddiaeth (Cymru) i'w gyflwyno yn nhymor y Cynulliad nesaf. Mae manylion y cynllun newydd yn dibynnu ar ganlyniad penderfyniadau polisi a gweithredol na ellir eu gwneud nes bod dadansoddiad o ganlyniadau'r Papurau Gwyrdd a Gwyn wedi'i gwblhau.

86. Bydd gwneud y darpariaethau hyn ar gyfer Cymru ym Mil Amaethyddiaeth y DU yn golygu y bydd modd parhau i ddarparu cymorthdaliadau amaethyddol presennol y tu hwnt i 2020, a sicrhau bod marchnadoedd amaethyddol yn gweithredu'n effeithiol ar ôl i'r DU ymadael â'r UE. Mae'r pwerau a gymerir i Weinidogion Cymru o dan Atodlen 5 (darpariaeth sy'n ymwneud â Chymru) i'r Bil hwn yn gyfyngedig o ran amser ac wedi'u bwriadu i fod yn fesur darvoudol i roi sefydlogrwydd mawr ei angen i'r sector amaethyddol yn y cyfnod hwn o ansicrwydd.

87. Ar y cyfan, mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi'r Bil fel y mae wedi'i ddrafftio. Mae anghytundeb o hyd rhwng Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru ynghylch a yw cymal Sefydliad Masnach y Byd wedi'i gadw'n gyfan gwbl. Fodd bynnag, daethpwyd i gytundeb dwyochrog i'w gwneud yn ofynnol i Lywodraeth y DU ymgynghori â'r gweinyddiaethau datganoledig

cyn cyflwyno rheoliadau o dan y pŵer hwn. Darparwyd esboniad o delerau'r cytundeb fel rhan o'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Mawrth 2019) ar y Bil Amaethyddiaeth blaenorol (a gyflwynwyd ym mis Medi 2018).

88. Mae pryderon heb eu datrys o ran y darpariaethau yn y Bil ar gyfer adnabod ac olrhain anifeiliaid (cymal 32), tenantiaethau amaethyddol (cymal 34 ac Atodlen 3), a rheoleiddio cynnyrch organig (cymal 36). Bydd gwaith i ddatrys y pryderon hyn sydd heb eu datrys yn parhau yn ystod taith seneddol y Bil a chaiff Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol atodol ei gyflwyno ar yr adeg briodol, os bydd angen.

Goblygiadau ariannol

89. Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol uniongyrchol i Lywodraeth Cymru na'r Cynulliad o ganlyniad i gymryd y pwerau hyn yn y Bil hwn.

Casgliad

90. Mae Llywodraeth Cymru o'r farn ei bod yn briodol defnyddio'r Bil hwn ar gyfer y DU fel cyfrwng i alluogi Llywodraeth Cymru i barhau i ddarparu cymorth ariannol i ffermwyr yng Nghymru ar ôl 2020, ac i sicrhau bod marchnadoedd amaethyddol yng Nghymru ac ar draws y DU yn gweithredu'n effeithiol ar ôl i'r DU ymadael â'r UE. Bydd rhai pwerau â chyfyngiad amser y mae'r Bil hwn yn darparu ar eu cyfer yn cael eu defnyddio hyd nes y caiff Bil Amaethyddiaeth (Cymru) ei gyflwyno yn y Cynulliad.

Lesley Griffiths AC
Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig
Chwefror 2020

Atodiad

MEMORANDWM CYDSYNIAD DEDDFWRIAETHOL: BIL AMAETHYDDIAETH 2020 – DARPARIAETHAU SY'N CYNWYS PWERAU I WEINIDOGION CYMRU WNEUD IS-DEDDFWRIAETH

<u>Darpariaeth y Bil</u>	<u>Disgrifiad o'r pŵer</u>	<u>Gweithdrefn deddfwriaethol</u>
31 (gwrteithiau)	Mae cymal 31(4) yn diwygio adran 74A o Ddeddf Amaethyddiaeth 1970 ac yn caniatáu i reoliadau a wneir gan Weinidogion Cymru mewn perthynas â Chymru (a'r Ysgrifennydd Gwladol, Gweinidogion yr Alban ac Adran yng Ngogledd Iwerddon mewn perthynas â rhannau eraill o'r DU) i bennu trefn asesu, monitro a gorfodi ar gyfer sicrhau bod gwrteithiau'n cydymffurfio â gofynion cyfansoddiad, cynnwys a swyddogaeth ac ar gyfer lliniaru risgiau eraill i iechyd pobl, anifeiliaid neu blanhigion neu'r amgylchedd a gyflwynir gan wrteithiau.	Mae'r rheoliadau cyntaf a wneir gan Weinidogion Cymru o dan adran 74A(1A) i (1E) o Ddeddf Amaethyddiaeth 1970 yn ddarostyngedig i'r weithdrefn penderfyniad cadarnhaol. Mae rheoliadau dilynol a wneir gan Weinidogion Cymru, o dan adran 74A(1A)(b) (sy'n rhoi swyddogaethau i awdurdod cyhoeddus sy'n ymwneud â goruchwyllo a rheoleiddio'r farchnad) neu (1E)(a)(i) neu (ii) (diwygio a diddymu cyfraith yr UE a ddargedwir sy'n ymwneud â gwrteithiau) hefyd yn ddarostyngedig i'r weithdrefn penderfyniad cadarnhaol (cymal 31(5), sy'n diwygio adran 84 o Ddeddf Amaethyddiaeth 1970). Fel arall, mae'r weithdrefn penderfyniad negyddol yn gymwys (gweler adran 84(2), Deddf Amaethyddiaeth 1970).
33 (ardoll cig coch)	Pwerau i Weinidogion Cymru (gan weithredu ar y cyd â'r Ysgrifennydd Gwladol a/neu Weinidogion yr Alban) ffurfio cynllun i wneud darpariaeth i symiau o ardoll cig coch a gesglir gan y corff ardollau ar gyfer un wlad ym Mhrydain gael eu talu i'r corff ardollau ar gyfer gwlad arall o'r fath.	Dim gweithdrefn
36 a 37 (cynhyrchion organig)	Pwerau i Weinidogion Cymru mewn perthynas ag ardystio cynhyrchion organig a rheolaethau mewnforio ac allforio (os ac i'r graddau y byddai darpariaeth a wneir gan y rheoliadau o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru pe bai wedi ei chynnwys mewn Deddf gan y Cynulliad hwnnw (gan anwybyddu unrhyw ofyniad am gydsyniad unrhyw berson) (cymal 37(1)(c)).	Gweithdrefn penderfyniad cadarnhaol lle — (a) mae'r Rheoliadau'n cael eu gwneud o dan adran 36(1) ac yn cynnwys darpariaeth y cyfeirir ati yn adran 36(3), neu (b) mae'r rheoliadau'n cael eu gwneud o dan is-adran (1), (5) neu (7) o adran 36 a dyma'r rheoliadau cyntaf i gael eu gwneud o dan yr is-adran honno gan yr awdurdod sy'n eu

		gwneud. Fel arall, mae rheoliadau o dan gymal 36 yn ddarostyngedig i'r weithdrefn penderfyniad negyddol (oni bai bod adran 47(5) yn gymwys, felly'r weithdrefn penderfyniad cadarnhaol).
44 (hyd y ddarpariaeth mewn perthynas â Chymru)	Pwerau i Weinidogion Cymru wneud darpariaeth drosiannol, ddarfodol neu arbed mewn perthynas â'r adran hon.	Mae rheoliadau o dan y cymal hwn sy'n cynnwys darpariaeth sy'n addasu deddfwriaeth sylfaenol (gyda neu heb ddarpariaeth arall) yn ddarostyngedig i'r weithdrefn penderfyniad cadarnhaol. Mae rheoliadau eraill o dan y cymal hwn yn ddarostyngedig i'r weithdrefn penderfyniad negyddol.
50(1) (darpariaeth ganlyniadol ac ati)	Caiff yr awdurdod priodol, drwy reoliadau, wneud darpariaeth atodol, gysylltiedig neu ganlyniadol yng nghyswllt unrhyw ddarpariaeth yn y Ddeddf hon. Gweinidogion Cymru yw'r awdurdod priodol, ar gyfer darpariaeth yng nghyswllt— (i) cymal 43 ac Atodlen 5, (ii) cymal 44, a (iii) cymal 49 ac Atodlen 7 i'r graddau y maent yn gymwys mewn perthynas â Chymru.	Mae rheoliadau o dan adran 50(1) sy'n cynnwys darpariaeth sy'n addasu deddfwriaeth sylfaenol (gyda neu heb ddarpariaeth arall) yn ddarostyngedig i'r weithdrefn penderfyniad cadarnhaol. Mae rheoliadau eraill o dan is-adran (1) yn ddarostyngedig i'r weithdrefn penderfyniad negyddol.
50(5) (darpariaeth ganlyniadol ac ati)	Caiff yr awdurdod priodol drwy reoliadau wneud darpariaeth drosiannol, ddarfodol neu arbed yng nghyswllt dod ag unrhyw ddarpariaeth yn y Ddeddf i rym. Gweinidogion Cymru yw'r awdurdod priodol, ar gyfer darpariaeth yng nghyswllt— (i) cymal 43 ac Atodlen 5, (ii) cymal 44, a (iii) cymal 49 ac Atodlen 7 i'r graddau y maent yn gymwys mewn perthynas â Chymru.	Dim gweithdrefn
53(3) (cychwyn)	Pwerau i Weinidogion Cymru drwy reoliadau a wneir gan offeryn statudol i benodi— (a) i'r graddau y mae'n ymwneud â Chymru— (i) paragraffau 10 i 18 o Atodlen 3, a (ii) adran 34 i'r graddau y mae'n ymwneud â'r paragraffau hynny, (b) Rhannau 2 a 4 o Atodlen 5, ac adran 43 i'r graddau y mae'n ymwneud â'r Rhannau hynny, a (c) Rhannau 2 a 4 o Atodlen 7, ac adran 49 i'r graddau y mae'n ymwneud â'r Rhannau hynny.	Dim gweithdrefn
Atodlen 3, para 6(7)	Pwerau i Weinidogion Cymru drwy reoliadau a wneir mewn offeryn statudol i ddiwygio adran 84 o Ddeddf Daliadau Amaethyddol 1986 er mwyn- a) cynnwys person yn y diffiniad o "awdurdod proffesiynol" neu ddileu person ohono;	Gweithdrefn negyddol

	b) adlewyrchu newidiadau yn enw neu drefniadaeth fewnol unrhyw gorff a grybwyllir yn y diffiniad hwnnw.	
Atodlen 3, para 7	Pwerau i Weinidogion Cymru drwy reoliadau wneud darpariaeth i denant daliad amaethyddol atgyfeirio ar gyfer cymrodeddu y ceisiadau a wneir gan y tenant am gydsyniad y landlord neu i amrywio telerau	Gweithdrefn negyddol
Atodlen 3, para 17	Mae paragraff 17 yn diwygio adran 39(8) o Ddeddf Daliadau Amaethyddol 1986 er mwyn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru, mewn perthynas â Chymru, wneud rheoliadau sy'n pennu'r meini prawf y mae'n rhaid eu hystyried wrth benderfynu a yw person yn addas i fod yn denant daliad.	Gweithdrefn negyddol
Atodlen 5, para 2(1)	Pwerau i Weinidogion Cymru addasu deddfwriaeth sy'n llywodraethu'r cynllun taliad sylfaenol	Gweithdrefn penderfyniad negyddol (oni bai bod cymal 47(5) yn gymwys, ac os felly, y weithdrefn penderfyniad cadarnhaol)
Atodlen 5, para 3(1)	Pwerau i Weinidogion Cymru ddarparu ar gyfer parhau â'r cynllun taliad sylfaenol y tu hwnt i 2020, gan gynnwys y pŵer i Weinidogion Cymru bennu terfyn uchaf i daliadau uniongyrchol ar gyfer Cymru	Gweithdrefn penderfyniad cadarnhaol
Atodlen 5, para 4(1)	Pwerau i Weinidogion Cymru, drwy reoliadau, addasu deddfwriaeth uniongyrchol yr UE a ddargedwir sy'n ymwneud â chyllido, rheoli a monitro'r polisi amaethyddol cyffredin ac is-ddeddfwriaeth sy'n ymwneud â'r ddeddfwriaeth honno.	Gweithdrefn penderfyniad negyddol (oni bai bod cymal 47(5) yn gymwys, ac os felly, y weithdrefn penderfyniad cadarnhaol)
Atodlen 5, para 5(1)	Pwerau i Weinidogion Cymru, drwy reoliadau, addasu deddfwriaeth uniongyrchol yr UE a ddargedwir sy'n ymwneud â chymorth ar gyfer datblygu gwledig ac is-ddeddfwriaeth sy'n ymwneud â'r ddeddfwriaeth honno.	Gweithdrefn penderfyniad negyddol (oni bai bod cymal 47(5) yn gymwys, ac os felly, y weithdrefn penderfyniad cadarnhaol)
Atodlen 5, para 8(1)	Pwerau i Weinidogion Cymru, drwy reoliadau, i addasu deddfwriaeth uniongyrchol yr UE a ddargedwir sy'n ymwneud ag ymyrryd yn y farchnad gyhoeddus neu gymorth ar gyfer storio preifat at ddibenion newid y modd y mae darpariaethau deddfwriaeth o'r fath yn gweithredu, i'r graddau y maent yn cael effaith mewn perthynas â Chymru mewn cysylltiad ag amodau eithriadol yn y farchnad sy'n destun datganiad o dan baragraff 6 o Atodlen 5 (datganiad ynghylch amodau eithriadol yn y farchnad).	Gweithdrefn penderfyniad negyddol (oni bai bod cymal 47(5) yn gymwys, ac os felly, y weithdrefn penderfyniad cadarnhaol)
Atodlen 5, para 8(2)	Pwerau i Weinidogion Cymru, drwy reoliadau, addasu deddfwriaeth uniongyrchol yr UE a ddargedwir sy'n ymwneud ag ymyrryd yn y farchnad gyhoeddus neu gymorth ar gyfer storio preifat at ddibenion penodedig	Gweithdrefn penderfyniad negyddol (oni bai bod cymal 47(5) yn gymwys, ac os felly, y weithdrefn penderfyniad cadarnhaol)
Atodlen 5, para 9(2)	Pwerau i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau sy'n ei gwneud yn ofynnol i bersonau sy'n rhan o gadwyn gyflenwi bwyd-amaeth neu sydd â chysylltiad agos â chadwyn o'r fath ddarparu gwybodaeth am faterion sy'n gysylltiedig ag unrhyw un o weithgareddau'r person sy'n gysylltiedig â'r	Gweithdrefn penderfyniad cadarnhaol

	gadwyn gyflenwi os yw'r gweithgareddau yng Nghymru.	
Atodlen 5, para 14(1)	Pwerau i Weinidogion Cymru wneud darpariaeth ar gyfer gorfodi gofyniad a osodir o dan baragraff 9(1) neu (2) o Atodlen 5 (cadwyni cyflenwi bwyd-amaeth: gofyniad i ddarparu gwybodaeth)	Gweithdrefn penderfyniad cadarnhaol
Atodlen 5, para 15(1)	Pwerau i Weinidogion Cymru drwy reoliadau, mewn perthynas â chynhyrchion sydd o fewn sector penodedig ac sy'n cael eu marchnata yng Nghymru, wneud darpariaethau ynghylch y safonau y mae'n rhaid i'r cynhyrchion hynny gydymffurfio â hwy	Gweithdrefn penderfyniad cadarnhaol
Atodlen 5, para 16(3)	Pwerau i Weinidogion Cymru ddiwygio paragraffau 15 ac 16 at y diben neu mewn perthynas â'r diben hwnnw— (a) ychwanegu neu dynnu cynnyrch amaethyddol o baragraff 16(1); (b) newid y disgrifiad o gynnyrch amaethyddol ym mharagraff 16(1).	Gweithdrefn penderfyniad cadarnhaol
Atodlen 5, para 17(1)	Pwerau i Weinidogion Cymru wneud darpariaeth ynghylch dosbarthu, adnabod a chyflwyno carcasau buchol, moch a defaid gan ladd-dai yng Nghymru	Gweithdrefn penderfyniad cadarnhaol